



# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Tregerddan**

**Tregerddan  
Bow Street  
SY24 5BW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

16/04/2024

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

[psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Cartref Gofal Preswyl Tregerddan

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion
Lleoedd cofrestredig	28
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	24 Mawrth 2023
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

## Crynodeb

Dyweddodd y bobl sy'n byw yng nghartref gofal preswyl Tregerddan wrthym eu bod yn hapus yn byw yno ac maent yn canmol y staff gofal sy'n eu cefnogi'n fawr iawn. Maent yn cael cyfleoedd i wneud pethau y mae ganddynt ddi-ddordeb ynddynt ac yn mwynhau pan fydd eu teuluoedd a'u ffrindiau yn ymweld â nhw ar unrhyw adeg.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr a dywedwyd ei fod yn hawdd mynd atynt i gael cymorth ac arweiniad. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y staff gofal i ddarparu'r gofal a'r cymorth cywir i'r bobl. Caiff adborth ei geisio gan gydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol pan fo angen.

Cyhoeddwyd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad diwethaf yn sgil cyflwr gwael yr amgylchedd, yn enwedig y décor. Gwelsom nad oedd llawer o welliannau wedi cael eu gwneud felly, mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn parhau'n weithredol.

Mae angen gwella trefniadau llywodraethu a goruchwylio'r gwasanaeth. Ni chaiff camau gweithredu eu cymryd yn gyflym i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr archwiliadau mewnol ac allanol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau dyddiol. Mae eu dewisiadau yn cynnwys ble a sut i dreulio eu diwrnod a'r hyn y maent am ei fwyta a'i yfed. Ymgynghorir â nhw a/neu eu cynrychiolwyr am y cymorth sydd ei angen arnynt, a chaiff hyn ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r tîm staff gofal yn adnabod y bobl yn dda iawn ac yn darparu cymorth ac arweiniad i'r bobl sydd eu hangen er mwyn gwneud penderfyniadau pwysig. Caiff y bobl a'u cynrychiolwyr/teuluoedd gyfleoedd i ddweud eu dweud am y gwasanaeth drwy drafodaethau dyddiol â'r staff gofal ac mewn cyfarfodydd mwy ffurfiol. Mae gwybodaeth ar gael am yr hyn y gall y bobl ei ddisgwyl tra'n byw yng nghartref gofal preswyl Tregerddan. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys sut i godi pryder. Mae'r bobl a'u teuluoedd/cynrychiolwyr yn canmol y tîm o staff yn fawr iawn. Dywedwyd wrthym ei fod yn hawdd mynd at aelodau o'r tîm os bydd ganddynt unrhyw broblemau a'u bod bob amser yn gwrando arnynt. Darperir y gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Caiff y bobl eu cefnogi i barhau mor iach ac actif â phosibl i gefnogi eu llesiant. Gwelsom deuluoedd a ffrindiau yn ymweld â'r bobl drwy gydol y dydd. Roedd yn amlwg fod y bobl yn edrych ymlaen at yr ymweliadau hyn ac yn eu mwynhau. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud cysylltiadau â'r gymuned. Gwahoddir aelodau o'r gymuned, gan gynnwys plant ysgol a'r sgowtiaid lleol i gartref Tregerddan yn rheolaidd. Dywed y bobl eu bod yn edrych ymlaen at yr ymweliadau hyn. Mae gan y bobl gydberthnasau da â'r tîm o staff. Roeddent yn cael llawer o hwyl ac yn chwerthin yn ystod ein hymweliad ac roedd y staff gofal yn gyfeillgar ac yn ofalgar iawn. Mae cyngor meddygol yn cael ei geisio pan fo angen a chaiff y bobl eu cefnogi i gymryd eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Dywedodd aelodau o'r teuluoedd wrthym eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i anghenion gofal eu perthnasau a'u bod yn gwerthfawrogi hyn.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Dywed y staff gofal wrthym fod polisïau a gweithdrefnau ar gael iddynt i'w tywys drwy eu hymarfer. Maent yn cael hyfforddiant ar ddiogelu. Mae'r asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth iddynt ei dilyn er mwyn eu helpu i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am lesiant y bobl a phwy y dylid rhoi gwybod iddynt am y pryderon hynny. Mae angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau atal a rheoli heintiau er mwyn cadw'r bobl mor ddiogel ac iach â phosibl.

Nid yw'r amgylchedd cyffredinol yn diwallu anghenion y bobl nac yn cefnogi eu llesiant. Er bod peth gwaith wedi cael ei gynnal ar yr adeilad, ychydig iawn o welliannau sydd wedi'u gwneud i'r décor, y carpedi a'r dodrefn fel y nodwyd yn yr arolygiad diwethaf. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau yr eir i'r afael â materion a nodir drwy archwiliadau mewnol ac allanol mewn modd amserol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth yn unol â'u hanghenion unigol a'u dewisiadau personol. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Nid yw pob unigolyn y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cynlluniau personol nac yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu eu canlyniadau personol. Fodd bynnag, dywedodd aelodau o'u teuluoedd wrthym eu bod yn cael y wybodaeth lawn ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i'r anghenion gofal. Gwelsom y tîm rheoli yn trafod anghenion gofal a chymorth unigol â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allanol yn ogystal ag aelodau o'r teuluoedd yn ystod ein hymweliad. Mae cynlluniau rheoli risg ar waith ar gyfer y risgiau a nodwyd er mwyn helpu i hyrwyddo annibyniaeth wrth gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw bod cynlluniau personol ar gael iddynt er mwyn sicrhau y gallant roi cymorth i'r bobl yn y ffordd gywir.

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae'r staff gofal yn weladwy drwy'r gwasanaeth, gan gynnwys yr ardaloedd cymunedol, er mwyn cynnig cymorth. Gall y bobl yn eu hystafelloedd gwely ddefnyddio larwm er mwyn galw am gymorth pe byddent ei angen. Roedd yr awyrgylch yn hyfryd ac yn hamddenol yn ystod ein hymweliad. Roedd y bobl yn gwneud pethau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt, gan gynnwys darllen papur newydd, mynd allan i'r dref, gwyllo'r teledu a chymdeithasu â ffrindiau y maent wedi cwrdd â nhw yn y gwasanaeth. Roedd yn ymddangos bod y prydau bwyd a welwyd yn cael eu cyflwyno'n dda ac mae dewis o fwyd ar gael. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod y bwyd yn flasus.

Caiff iechyd a llesiant y bobl eu cefnogi gan dîm o staff gwybodus a gofalgar sy'n ymrwymedig i wneud yn siŵr bod y bobl yn parhau mor iach â phosibl. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd amserol. Clywsom y staff gofal yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn trafod yr anghenion gofal i sicrhau bod y driniaeth/cymorth yn parhau'n briodol. Caiff meddyginiaethau eu rheoli gan y staff gofal sydd wedi cael hyfforddiant ar y broses hon ac mae polisïau a gweithdrefnau ar gael iddynt i'w tywys drwy eu hymarfer wrth reoli meddyginiaethau. Caiff archwiliadau rheolaidd eu cynnal o'r meddyginiaethau sy'n golygu y gellir nodi unrhyw faterion a'u hunioni'n gyflym.

## Yr Amgylchedd

Gwelsom y bobl yn symud yn rhydd o amgylch y cartref. Roedd rhai yn treulio amser yn eu hystafelloedd gwely ar eu pen eu hunain neu gydag ymwelwyr, ac roedd eraill yn mwynhau yng nghwmni eu ffrindiau yn y lolfeydd. Mae gan y bobl eitemau personol yn eu hystafelloedd sydd o bwys iddynt. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom gyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth gan fod cyflwr yr amgylchedd yn wael iawn. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom mai ychydig iawn sydd wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r décor gwael, y lloriau a'r dodrefn yn y cartref. Gwelsom fod y carpedi wedi treulio a bod rhai wedi cael eu hatgyweirio dros dro â thâp, roedd y papur wal yn dod oddi ar y waliau ac roedd y gwaith pren wedi'i ddifrodi ac mewn cyflwr gwael. Gwelwyd y rhain yn yr ardaloedd cymunedol, y coridorau a'r ystafelloedd gwely. Mae'r archwiliadau mewnol hefyd wedi nodi bod yr amgylchedd mewn cyflwr gwael, ond ychydig iawn sydd wedi cael ei wneud i fynd i'r afael ag ef. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Byddwn yn trafod â'r darparwr y camau gweithredu y bydd yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater.

Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn rheoli'r trefniadau atal a rheoli heintiau. Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff gofal i'w ddefnyddio. Maent yn cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ac mae canllawiau pellach ar gael iddynt ym mhollisi atal a rheoli heintiau'r darparwr. Fodd bynnag, oherwydd cyflwr gwael iawn yr amgylchedd, gan gynnwys y gwaith addurno, y lloriau, y dodrefn a'r cyfarpar, ni ellir cwblhau'r gwaith glanhau mor effeithiol ag y dylid. Nid yw'r golchfeydd yn hygyrch ym mhob rhan o'r gwasanaeth sy'n golygu bod yn rhaid i'r staff gofal gerdded drwy'r ardaloedd cymunedol gyda'r comodau i'w gwagio. Mae rhywfaint o'r cyfarpar, gan gynnwys codwyr uchder y toiledau, wedi'i ddifrodi. Nodwyd bod angen mynd i'r afael â'r gwelliannau i'r trefniadau atal a rheoli heintiau drwy archwiliadau'r bwrdd iechyd yn ogystal ag archwiliadau mewnol, ond nid aethpwyd i'r afael â phob un o'r materion. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae mesurau ar waith i reoli iechyd a diogelwch yn y cartref. Mae'r darparwr yn cynnal archwiliadau iechyd a Diogelwch yn rheolaidd. Mae rhai gwelliannau mewn perthynas â diogelwch tân wedi cael eu cwblhau, gan gynnwys gosod system diogelwch tân a drysau tân newydd. Mae angen gwneud gwaith pellach sydd eisoes yn mynd rhagddo. Caiff y cyfleusterau a'r cyfarpar eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael y cyfle i roi eu barn am y gwasanaeth mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cyfarfodydd i breswylwyr a thrafodaethau dyddiol â'r staff gofal a thîm rheoli'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ei ymweliadau gofynnol â'r gwasanaeth ac mae cyfarfodydd 'galw heibio' newydd wedi cael eu trefnu i atgyfnerthu'r broses o ymgysylltu â'r staff gofal a'r teuluoedd/cynrychiolwyr. Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys y datganiad o ddiben, sy'n dweud wrth bobl am yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth a sut i godi pryderon os byddant yn dymuno gwneud hynny. Dywed y bobl wrthym eu bod yn hyderus y byddai'r staff yn gwrandao arnynt os byddent yn codi unrhyw faterion.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff gofal sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan dîm rheoli'r gwasanaeth. Dywedwyd ei bod yn hawdd mynd at aelodau'r tîm rheoli a'u bod bob amser yn cymryd amser i wrando arnynt. Dywed y staff gofal eu bod yn gweithio'n dda fel tîm a'u bod yn cael cyfarfodydd un i un â'u rheolwr llinell lle y gallant fyfyrion ar eu hymarfer a thrafod unrhyw faterion a allai fod ganddynt. Caiff arfarniadau eu cynnal o'u perfformiad lle y gellir nodi unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol i'w cefnogi yn eu rôl. Dywedodd yr aelodau newydd o staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan eu cydweithwyr a'u bod yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn am help ac arweiniad os bydd eu hangen arnynt. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff gofal yn ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Cafodd hyn ei gadarnhau mewn trafodaethau â nhw. Cadarnhaodd yr Unigolyn Cyfrifol y bydd hyfforddiant arbenigol, gan gynnwys hyfforddiant ar ddysffagia ac epilepsi, yn cael ei drefnu er mwyn helpu i gynyddu gwybodaeth y staff am y meysydd hyn. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth â'r staff gofal ac er mwyn iddynt drafod unrhyw faterion fel grŵp.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal sy'n cael eu recriwtio'n briodol er mwyn helpu i'w cadw'n ddiogel. Defnyddir staff asiantaeth i weithio ochr yn ochr â'r staff parhaol er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl yn parhau i gael gofal a chymorth mewn modd amserol.

Mae angen gwella'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu a goruchwylio'r gwasanaeth. Caiff adroddiadau ansawdd y gofal eu llunio sy'n dangos yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella. Caiff archwiliadau mewnol ac allanol eu cynnal ar bob agwedd ar y gwasanaeth er mwyn nodi unrhyw faterion. Fodd bynnag, nid chaiff y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, gan gynnwys materion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a threfniadau atal a rheoli heintiau, bob amser eu cwblhau mewn modd amserol er mwyn sicrhau y gall y bobl gyflawni'r canlyniadau gorau. Ni allem weld bod y darparwr wedi sicrhau ei fod yn meddu ar yr holl wybodaeth recriwtio a

hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â'r staff a ddarperir gan asiantaeth. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.



Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
44	Mae'r darparwr wedi gwneud rhai gwelliannau yn yr adeilad, yn enwedig ynghylch diogelwch tân. Fodd bynnag, nid yw wedi cwblhau'r cynllun adnewyddu ac addurno sydd ar waith i fynd i'r afael â charpedi sydd wedi treulio, papur wal sydd wedi'i ddifrodi a gwaith pren a dodrefn sydd mewn cyflwr gwael.	Heb Gyflawni

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
56	Nid yw'r darparwr wedi gweithredu ar y materion mewn perthynas â'r trefniadau atal a rheoli heintiau a nodwyd mewn archwiliadau mewnol ac allanol. Dylid mynd i'r afael â'r rhain er mwyn rheoli'r risg o haint.	Newydd
6	Nid yw'r darparwr wedi cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â materion a nodwyd mewn archwiliadau mewnol ac allanol o'r gwasanaeth er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl	Newydd

## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 07/06/2024**